y Goleuad

CYFROL CXXXVII RHIF 47 DYDD GWENER, TACHWEDD 20, 2009 Pris 40c

ESMWYTHO'R LLWYBR

Eleni y mae Eglwys Bresbyteraidd y Crwys yn dathlu ugain mlynedd o addoliad yn ein hadeilad newydd yn Richmond Road, Caerdydd.

Tair blynedd ar ddeg yn ôl dechreuodd aelodau Grŵp Merched y Crwys ymweld yn fisol â'r rhai hynny o aelodau'r capel a oedd yn gaeth i'w cartrefi.

Dewiswyd adnod neu bennill ar gyfer cerdyn a gyflwynid wrth ymweld, a dyma ychydig o'r darnau a gynigiodd gysur i'r rhai a'u derbyniodd, mewn llyfryn a fydd yn cofnodi gweithgarwch Grŵp Ymweld Merched y Crwys. Bydd y llyfryn 'Esmwytho'r Llwybr' ar gael ar stondin Traidcraft yng nghyntedd y Crwys o Sul cyntaf mis Tachwedd, neu oddi wrth Dr. Ann Lloyd Jones, 'Cil y Gwynt', 24 Marionville Gardens, Llandaf. Caerdydd. CF5 2LR.

Mae'r llun yn cynnwys rhai o Grŵp Ymweld y Merched sydd wedi bod wrth y gwaith.

FFURFIO GRŴP YMWELD MERCHED Y CRWYS

Ym 1996 cynigiodd ein cyn weinidog, y Parchedig W.I.Cynwil Williams, restr o enwau aelodau a oedd yn methu mynd allan o'u cartrefi heb gwmni. (Yr oedd rhai yn mynychu'r gwasnaethau, ond yn methu gwneud hynny heb gael eu cludo gan berthnasau neu ffrindiau.) Oddiar hynny diweddarwyd y rhestr yn gyson ganddo ef, ac yna gan ein gweinidog presennol y Parchedig Glyn Tudwal Jones.

Ymwelwyd â phawb a oedd ar y rhestr, i benderfynu a fyddai'r ymweliadau yn dderbyniol, ac yna rhestrwyd enwau y rhai a fyddai'n gwerthfawrogi yr ymweliadau; o chwech ar ugain o enwau, 18-20 ddewisodd eu cael.

Ni fwriedid i gynllun ymweld y Grŵp Merched gymeryd lle unrhyw ymweld â'r hen a methedig a ddigwyddai eisoes, ond byddai'n fodd i sicrhau ymweliadau cyson â phawb a ddymunai eu derbyn.

Apeliwyd am wirfoddolwyr, a rhannwyd y cyfeiriadau y byddid yn ymweld â hwy rhwng ochrau dwyreinol a gorllewinol Caerdydd, gan fod ein haelodau yn wasgaredig ar hyd a lled y ddinas. Cytunwyd y byddai dau bâr o ymwelwyr yn mynd allan bob yn ail fis. Byddai manteision o fynd mewn parau gan fod rhai yn methu gyrru car a gan y byddai mynd gyda chwmni yn fwy pleserus i'r ymwelwyr na mynd yn unigol. Ar ôl gweld llwyddiant y cynllun yn ystod y flwyddyn gyntaf, gofynnwyd am fwy o ymwelwyr er mwyn medru ymweld â phob person yn fisol. Yn fuan tyfodd nifer y gwirfoddolwyr i ryw hanner cant, fel y gallai pedair o ferched gwahanol fynd allan bob mis.

Cyn yr ymweliadau cyntaf 'roedd yr ymwelwyr wedi cyfarfod i benderfynu ffurf yr ymweliadau.

'Roedd dwy i ymweld yn y dwyrain a dwy yn y gorllewin gan drefnu unrhyw amser o'r mis a fyddai'n gyfleus iddynt. Byddent yn aros tua chwarter awr, a bodloni ar hynny os nad oedd rheswm i aros yn hirach, am fod pobl mewn oedran teg yn blino'n fuan.

Ar gyfer pob ymweliad paratowyd cerdyn yn cynnwys llun, enwau'r ymwelwyr a oedd yn cynrychioli'r eglwys (fel bod y person neu'r perthnasau neu'r gofalwyr yn medru cofio'r enwau nes ymlaen) ac adnod neu bennill o'r Beibl neu'r Llyfr Emynau, neu farddoniaeth a oedd yn addas i'r tymor.

Byddai'r ymwelwyr yn cario ffeil a

drosglwyddid ar ddiwedd y mis i'w dilynwyr ar ôl nodi unrhyw newidiadau. Mae'r ffeil yn cynnwys enwau a rhifau ffôn yr ymwelwyr, er mwyn hwyluso cyfnewid misoedd ymhlith yr ymwelwyr pan fyddai angen yn codi. Hefyd cynhwysir enwau a chyfeiriadau y rhai fydd yn derbyn ymweliadau, a nodir rhifau ffôn y rhai oedd yn dymuno cael rhybudd cyn yr ymweliad. Nodir hefyd unrhyw amseroedd anghyfleus e.e. os bydd un ohonynt yn ymweld ag ysbyty neu ganolfan dydd yn wythnosol. Yn y ffeil hefyd mae'r cardiau sydd i'w dosbarthu, a mapiau i ddangos lleoliad y rhai fydd yn derbyn ymweliadau. Ychwanegir gan yr ymwelwyr hanes byr am bob ymweliad, yn cynnwys cyfarwyddyd am fynediad e.e. "Cnociwch y drws ac hefyd y ffenestr ffrynt" neu "Arhoswch; fe gymer amser hir i'r drws gael ei ateb." Yn ddiweddar cynigiwyd recordiad o wasanaeth yn y capel i rai a ddymunai ei gael ac a fyddai mewn ffordd i wrando arno.

O'r dechrau disgwyliem i'r ymweliadau fod o werth i'r rhai a'u derbyniai. Ond daeth manteision eraill yn annisgwyl. Daeth rhai o'r merched i adnabod ei gilydd yn well a dod yn ffrindiau. Gwnaeth ambell un o'r hen a methedig gasgliad o'r cardiau, yn cynnwys un hen ledi yn ei naw degau a roddodd bob un mewn rhes ar ei dresel, Gobeithiwn y bydd y rhaglen ymweld yn parhau i fod yn werthfawr i'r hen a methedig ac i'r ymwelwyr fel ei gilydd.

Ann Lloyd Jones
(Trefnydd y Grŵp Ymweld)